



Adroddiad Cyfarfod

14:09:22

Owain Roberts
(pianydd)

Cynhalwyd ein Cyfarfod agoriadol ar gyfer y tymor newydd o Ferched y Wawr yn y Cysegr am 7.30 ar y 14eg o Fedi.

Croeso

Fe agorwyd y noson gan y Llywydd newydd Mair Price a groesawodd yr aelodau sydd wedi alymuno a braf iawn oedd gweld aelodau newydd. Braf oedd gweld cymaint wedi troi i mewn wedi troi i frewn ac fe ddiolchodd i Anne, Gwyneth a Liz a phwyllgor llynedd am eu gwaith diflino yn atgyfodi'r gangen i gyfarfod wyneb yn wyneb ar ôl y cyfnod clo, Cafwyd blwyddyn lwyddiannus iawn gan orffen gyda trip godidog gyda gwibdaith i Lerpwl.

Canmolodd y swyddogion am fedru sicrhau arian loteri ar gyfer y gangen a dalodd am y trip i Lerpwl a'r bore coffi Gwyl Dewi a gafwyd yng nghwmni plant yr ysgol. Fe drosglwyddwyd y £380 a oedd y weddill i bwylgor y Neuadd. Darllenwyd llythyr o ddiolch gan y pwyllgor hwnnw, sydd wedi prynu taflunydd (projector) at ddefnydd y pentrefwyr.

Diolchodd Mair i Gwyneth Jones y cyn drysorydd am ei gwaith trylwyr yn paratoi mantolen ariannol, gan ategu fod ein sefyllfa ariannol fel cangen yn un eitha iach.

Fe gyflwynodd raglen tymor 2022- 2023 i'r aelodau, gan obeithio fod yna rhywbeth at ddant pawb. Diolchodd yn arbennig i Jen sydd hefyd yn islywydd am y gwaith o brintio'r rhaglen, ac i'w chwmni cyfrifiadurol Delwedd sy'n gwneud y gwaith yn flynyddol.

Cofion

Anfonwyd cofion at y rhai a fyddai'n hoffi bod efo ni, er fod amgylchiadau yn eu rhwystro. Cafwyd neges gan Elisabeth Blaenparc, sydd yn gobeithio medru dod i rai o'n cyfarfodydd eleni. Anfonodd gyfarchion arbennig i rai o'r aelodau.

- I Elen Ellis anfon pob hapusrwydd i Meleri ac Arwel yn dilyn eu priodas
- Dymuniadau gorau i Gwyneth Williams Llain yr Ardd a ddatlodd benblwydd arbennig yn ddiweddar.

- Yr ydym yn falch o ddeall for Mabel, Eryl a Gwyneth Jones Caerhun yn gwella o driniaethau a gawsant yn ddiweddar
- Anfonwyd cofion at Brian gŵr Eirlys Sharpe sydd wedi bod i fewn ac allan o'r Ysbyty yn ddiweddar
- Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ieuanc yr ardal sydd wedi cwblhau eu haroliadau, gan ddymuno yn dda i bob un sydd y cael cyfnod o newid ar hyn o bryd.

Gwybodaeth o Aberystwyth a gan y Rhanbarth

1. Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig 2023 a /neu Cerdd / barddoniaeth i roi o'i fewn (manylion gan Gwenan)
2. Cystadleuaeth Ffair Aeaf 28-29 Tachwedd 2022 – Dyddiad Cau 14eg Hydref (ffurflen gofrestru gan Gwenan)
 - Crefft - Seren – unrhyw gyfrwng, unrhyw faint /Unrhyw eitem Nadoligaidd/ Ysgyfarnog neu Gwningen – unrhyw gyfrwng
 - Coginio - Cacen Nadolig i unigolyn wedi ei haddurno (y gacen a'r addurn i'w feirniadu)
3. Eisteddfod Llŷn ac Eifionnydd

Fis Gorffennaf cafwyd cyfarfod i drafod gweithgareddau Rhanbarthau MyW, Arfon a Dwyfor ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2023.

Yn y cyfarfod cychwynnol, wedi trafodaeth, penderfynwyd mai LLWYBRAU fydd y thema ar gyfer pabell y Mudiad.

Dymunir i bob cangen feddwl am lwybr sydd yn eu hardal gydag ychydig o wybodaeth a fydd o ddiddordeb am y llwybr hwnnw. Hefyd gofynnir a oes syniadau ar gyfer arddangosfa'r babell, eto ar y thema LLWYBRAU.

Cynhelir pwyllgor Merched y Wawr i drefnu at yr Eisteddfod Genedlaethol ar zoom am 7 o'r gloch, nos Iau, Medi 29ain (aelodau sydd eisiau ymuno i gysylltu efo Gwenan i gael y linc)

Cafwyd cais arbennig o'r rhanbarth i aelodau ymuno a chynrychiolydd y gangen (Mair Read) i i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Celf a Chrefft, Ddydd Iau 6ed Hydref am 10.30 yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon

Gwestai Arbennig i Agor y Tymor

Ein gwestai arbennig oedd Owain Roberts, un o fechgyn ieuanc yr ardal, yn fab i un o'n aelodau ffyddlonaf y gangen sef Cecile a Gwilym ei dad, ac yn frawd i Dylan. Y mae Owain newydd ddechrau yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, lle mae'n astudio Hanes, Mathemateg ac Astudiaethau Busnes ar ôl canlyniadau anhygoel yn ei arholiadau TGAU. Er y pynciau hyn, dod i roi datganiad ar y piano a wnaeth a hynny yn rhagorol. Cafwyd cyflwyniad gwefreiddiol ganddo gan swyno pawb. Dipyn o beth i hogyn un ar bymtheg oed, sydd yn amlwg yn hynod dalentog. Diolchodd Mair Read iddo am ddod atom.

Swper Agoriadol

Yn dilyn yr adloniant arbennig, fe aethom i'r festri i fwynhau swper a baratowyd gan y pwyllgor. Cafwyd arlwy blasus a sgwrs ddifyr a phawb wedi mwynhau cael cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto.

Enillwyd y Raffyl, gan Anwylyd, Jen ac Anita

Bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal yn y Neuadd ar y 12fed Hydref am 7:30, pryd y disgwyliwn Ann Catrin, Gwneuthurwr a Dylunydd Cerfluniau a Gemwaith atom.